<table>
<tr><td colspan="2">Teitl Swydd: Swyddog Hyrwyddo a Chydlynu Digwyddiadau</td></tr>
<tr><td colspan="2">Prif bwrpas y swydd:<br><br>Bydd y swydd hon yn golygu gweithio 37.5 awr yr wythnos.<br><br>Mae Tabernacl (Bethesda) Cyf am benodi Swyddog Hyrwyddo a Cydlynu Digwyddiadau i gefnogi gyda phob agwedd o farchnata a chydlynu ar gyfer Neuadd Ogwen.<br><br>Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am gynorthwyo gyda chynhyrchu a dosbarthu deunyddiau hyrwyddo gan gynnwys posteri, baneri, taflenni a marchnata digidol. Yn ogystal, byddant yn gyfrifol am baratoi ac anfon cylchlythyrau rheolaidd trwy e-bost, negeseuon cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion taledig. Fel rhan o’r swydd yma fyddwch yn cydweithio gyda Rheolwr Neuadd Ogwen ar drefnu teithiau cenedlaethol a rhyngwladol I artistiaid cerddorol.<br><br>Yn ogystal i dyletswyddau o ddydd i dydd bydd disgywl i’r ymgeisydd llwyddiannus weithredu fel rheolwr ar ddyletswydd gan gynnwys adegau tuallan i oriau swyddfa pan fydd angen. Fydd hyn yn cynnwys mynychu digwyddiadau a gweithredu ar elfenau blaen ty, gofal cwsmer, cydlynu artistiaid, cydweithio gyda staff a datrys problemau sy’n codi. Fel rhan o’r dyletswyddau yma fydd yr unigolyn hefyd yn gyfrifol am sicrhau fod yr adeilad yn ddiogel ar ddiwedd diwrnod/digwyddiad ac bod unrhyw arian wedi gofnodi’n gywir ac yn ddiogel yn y swyddfa.<br><br>Hefyd bydd disgwyliad i’r ymgeisydd llwyddiannus ymgysylltu gyda’r gymuned leol, sefydliadau eraill ac unigolion er mwyn casglu adborth a gwerthuso ar holl waith y Neuadd. Fydd disgwyliad hefyd i gynnal ymgynghoriad cymunedol trylwyr unwaith y flwyddyn.<br><br>Bydd disgwyliad i’r unigolyn gefnogi’r Rheolwr ymhob agwedd o dyfu ac ehangu ar hyrwyddo’r Neuadd a mynychu cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Neuadd Ogwen yn achlysurol i adrodd yn ôl.<br><br>Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.<br><br>Gan fod elfen o drafeilio ar gyfer hyrwyddo a chydweithio fydd disgwyl i’r ymgeisydd llwyddiannus gael trwydded gyrru llawn a mynediad ar gerbyd gyda yswyriant perthnasol.</td></tr>
<tr><td>Yn ymateb i: Rheolwr Neuadd Ogwen</td><td>Lleoliad: Neuadd Ogwen, Bethesda</td></tr>
<tr><td>Hyd y cytundeb : 2 flynedd i ddechrau gydag estyniad yn ddibynnol ar ariannu.</td><td>Cyflog: Graddfa £25,000 hyd at £27,000 yn ddibynol ar brofiad</td></tr>
</table>